Green GEN Cymru
Hodge House
Guildhall Place
Cardiff CF10 1DY

[redacted]

greengencymru.com

Re: Ynghylch: Adolygiad o Rhaglen GGC a Chyflawni eich Rhaglen Lywodraethu

Anfonwyd drwy e-bost: Gohebiaeth.Prif.Weinidog@llyw.cymru

Cc: [redacted] Green GEN Cymru
Cc: [redacted] Green GEN Cymru

Annwyl Rhun,

Llongyfarchiadau ar eich penodiad fel Brif Weinidog Cymru. Rydym hefyd yn estyn ein llongyfarchiadau i'r Cabinet newydd, gan gynnwys y Gweinidog newydd dros Fenter, Cysyllted ac Ynni, Adam Price MS. Rydym hefyd wedi ysgrigennu yn uniongyrchol i'r Gweinidog newydd. Mae hyn yn foment hollbwysig i Gymru, ac yn gyfle sylweddol i osod cyfeiriad clir ac uchelgeisiol ar gyfer economi, seilwaith a system ynni'r wlad dros y degawd nesaf.

Bydd symud i system ynni ddiogel, fforddiadwy ac wedi'i chyflenwi'n ddomestig yn ganolog i gyflawni uchelgeisiau hinsawdd Cymru, ond mae hefyd yn sylfaenol i'r argyfwng costau byw, strategaeth ddiwydiannol, creu swyddi a thwf economaidd hirdymor. Gyda'r galw am drydan yn debygol o godi'n sydyn wrth i drydaneiddio gwres, trafnidiaeth a diwydiant, bydd y penderfyniadau a wneir nawr yn dylanwadu ar allu Cymru i gyrraedd ei huchelgeisiau trydan adnewyddadwy erbyn 2035 tra'n cadw costau i lawr i ddefnyddwyr a busnesau.

Ar yr un pryd, mae cynhyrchu trydan cyffredinol yng Nghymru wedi gostwng yn sylweddol, gyda'r allbwn yn cwympo bron 50% o'i uchafbwynt yn 2016. Mae hyn yn adlewyrchu cau cyflym capasiti glo a niwclear, nad yw eto wedi'i gyfateb gan gyflymder datblygu ynni adnewyddadwy. O ganlyniad, mae nwy bellach yn cyfrif am tua 58% o gynhyrchu trydan yng Nghymru — cyfran uwch nag mewn unrhyw wlad arall yn y DU — gan gynyddu'r amlygiad i farchnadoedd ynni rhyngwladol anwadal a'r sociau prisiau sy'n gysylltiedig â hynny.

Rydym yn croesawu ac yn rhannu uchelgais Plaid Cymru i Gymru arwain y trawsnewid gwyrdd, cryfhau diogelwch ynni, a chyflawni sero net erbyn 2040. Mae'r argyfwng hinsawdd, ochr yn ochr ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i dargedau uchelgeisiol, wedi bod yn rhan allweddol i ddatblygiad cyflym Green GEN Cymru (GGC) a'n ffocws cryf ar gyflawni.

Fodd bynnag, nid yw seilwaith grid trydan Cymru ar hyn o bryd yn addas i'r diben. Mae hyn yn gyfyngiad hirsefydlog ac wedi'i dystiolaethu'n dda, ac mae wedi'i gydnabod gan Bwyllgor Newid Hinsawdd a Materion Gwledig y Senedd, Pwyllgor Materion Cymreig San Steffan, ac yn Nghynllun Economaidd Newydd Plaid Cymru. Mae wedi cyfyngu ddatblygu ynni adnewyddadwy, cynyddu costau system, a chyfyngu ar gyfleoedd economaidd ledled Cymru ers dros ddegawd, yn enwedig yng Nghanolbarth Cymru.

Sefydlwyd GGC yn benodol i fynd i'r afael â'r dagfa strategol hon. Wedi'i leoli yng Nghymru, gyda chydweithwyr o bob rhan o'r wlad, mae ein prosiectau wedi'u dylunio yng Nghymru, ar gyfer Cymru, ac maent wedi'u targedu at rannau gwannaf y system er mwyn datgloi cynhyrchu ynni adnewyddadwy cost isel ar raddfa fawr. Rydym yn gweithio'n agos gyda'r Gweithredwr System Ynni Cenedlaethol a rhanddeiliaid rhwydwaith ehangach i sicrhau bod ein cynigion yn cyd-fynd ag anghenion hirdymor y system drydan ac yn cefnogi cyflawniad amserol y cynhyrchiad sydd ei angen i gyrraedd targedau 2035.

Gyda Llywodraeth Plaid Cymru newydd yn dod i rym, mae GGC yn barod i weithio mewn partneriaeth i helpu cyflawni'r maniffesto— yn gyflym, ar raddfa fawr, ac mewn ffordd sy'n darparu budd economaidd a chymunedol hirdymor i Gymru.

Rydym hefyd yn cydnabod bod rhaid ddarparu'r seilwaith grid sydd ei angen ar Gymru fynd law yn llaw ag ymateb i bryderon dilys ynghylch tirwedd, effaith weledol a derbynioldeb cymunedol. Wrth i'n prosiectau barhau i ddatblygu, rydym yn rhoi pwyslais sylweddol ar dulliau a all ddiwallu anghenion hirdymor y system tra hefyd yn adlewyrchu'n well y blaenoriaethau a nodwyd gan Blaid Cymru mewn perthynas â dylunio seilwaith a chadw mwy o werth economaidd o fewn Cymru.

Ar draws ein prosiectau, rydym wrthi'n datblygu dyluniadau a thechnolegau newydd gyda'r nod o wneud y mwyaf o gapasiti'r rhwydwaith tra'n lleihau effeithiau'n sylweddol, gan gynnwys technolegau dargludyddion modern, dulliau llwybro, a methodolegau adeiladu wedi'u cynllunio i leihau defnydd tir ac effeithiau amgylcheddol. Ochr yn ochr â hyn, rydym yn gweithio gyda'n partneriaid yn y gadwyn gyflenwi i sicrhau'r budd economaidd mwyaf posibl i Gymru drwy ymgysylltu'n fwy â chontractwyr, gweithgynhyrchwyr a chyflenwyr arbenigol sydd wedi'u lleoli yng Nghymru, a thrwy gynyddu cyfran y cynnwys Cymreig yn ein rhaglenni seilwaith lle bynnag y bo modd.

Mae rhai o'n cynigion dylunio arloesol wedi cael eu dylanwadu gan ddulliau rhwydwaith trydan y tu allan i'r DU, a nhw yw'r rhai nad ydym eto wedi'u cyhoeddi'n gyhoeddus. O ystyried y pwysigrwydd o sicrhau bod ystyriaethau o'r fath yma yn cael eu trin yn gywir, byddem yn croesawu'n fawr y cyfle i gyfarfod cyn gynted â phosibl i rannu'r meddylfryd diweddaraf, dulliau dylunio a'r dystiolaeth rydym yn ei ddatblygu yn y maes yma. Byddai hyn hefyd yn gyfle i drafod sut y gall ein cynigion cyd-fynd â blaenoriaethau a chyfeiriad polisi'r llywodraeth newydd.

Fel rhan o'n gwaith datblygu, rydym wrthi'n asesu wahannol opsiynau peirianyddol a seilwaith gyda'r bwriad o leihau effaith weledol ac ymateb i ystyriaethau cymunedol a pholisi, tra'n parhau i gynnal y gallu rhwydwaith sydd ei angen i alluogi ynni adnewyddadwy ar y raddfa sydd ei angen ar Gymru. Credwn fod gwerth gwirioneddol mewn ymgysylltu cydweithredol ar y cam hwn i archwilio'r hyn sy'n ymarferol i gyflawni, sut mae dulliau gwahanol yn effeithio ar ganlyniadau system, ac yn lle y gall fod cyfleoedd i sicrhau gwell aliniad rhwng cyflawni, ystyriaethau amgylcheddol a derbynioldeb cyhoeddus.

Rydym wedi amgáu - ynghyd â'r llythyr hwn - nodyn sy'n amlinellu sut y gall ein prosiectau cefnogi eich Rhaglen Lywodraethu. Mae hefyd yn tynnu ar ein dadansoddiad o gostau trydan.

Edrychwn ymlaen at weithio gyda chi a'ch llywodraeth yn ystod y misoedd a'r blynyddoedd i ddod.

Yn gywir,

[redacted]

Green GEN Cymru